# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 08/09/15, Ysgol Morfa Nefyn

---

Presennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gruffydd Williams | Bleddyn Evans | Alan Jones | Huw Williams |
| Guto Williams | Megan Williams | Sian Hughes | Catrin Roberts |
| Glesni Jones (Clerc) | Sharon Williams | | |

1. Ymddiheuriadau

   Ashley Hughes John Thomas Dafydd Rhun Arfon Hughes

2. Datgan buddiant ariannol neu bersonol

   Dim

3. Cofnodion 10fed o Awst

   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. Croesawu aelodau newydd y Cyngor

   Sharon Williams - Nefyn

5. Cronfa Cymunedau Arfordirol

   Diweddariad gan Cyng. Gruffydd Williams - Fe nodwyd fod y gwaith yn mynd yn ei flaen a'i fod wedi deryn neges gan …………… yn dweud ein bod yn gyfrifol am ddyrannu'r arian.

6. Llyfrgell Nefyn

   Sharon Williams wedi bod mewn cyfarfod yng Nghyngor Gwynedd ynglŷn ar sefyllfa llyfrgelloedd yng Ngwynedd. Mae'r ail ran o'r ymgynghoriad yn mynd yn ei flaen, lle mae Sian Shakespear yn paratoi adroddiad arbenigol annibynnol i'r cyngor ar wasanaeth Llyfrgell Gwynedd. Mi fydd wedyn yn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor lle bydd y Cyngor wedyn yn adrodd i'r Cabinet. Fe geir rhagor o wybodaeth ar wefan Cyngor Gwynedd.

7. Cae Chware Bryn Mynach (Proludic)

Proludic wedi gyrru peiriannydd i drwsio'r namau, pob dim nawr wedi ei sortio.
Ella yn y dyfodol os yw arian ar gael bydd yn bosib ehangu'r parc wrth efallai cael mwy o fyrddau picnic a ballu.

8. Cae aml-ddefnydd - Gymhorthdal

Cyng. Gruffydd Williams wedi derbyn gohebiaeth gan Chwaraeon Cymru yn nodi nad ydynt am gyfrannu dim tuag at gae aml - ddefnydd, y rheswm yw nad oes digon o boblogaeth yn yr ardal.

9. Traeth Nefyn a Morfa Nefyn

Wedi derbyn cwynion bod ceir yn parcio a'r traeth yn Nefyn ac ym Morfa. Mae trigolion y pentref yn pryderu am ei diogelwch. Mae angen trefnu cyfarfod gyda Barry Davies o'r adran Forwrol er mwyn gweld os oes unrhyw ffordd i leihau'r risg.

10. Penderfynwyd peidio â thrafod y mater hwn

11. Llythyr ymddiswyddo

Wedi derbyn llythyr gan G.Emlyn Jones yn ymddiswyddo. Fydd angen cysylltu â Chyngor Gwynedd yn datgan bod sedd wag yn ward Edern er mwyn cael dechrau'r broses i lenwi'r sedd wag.

12. Ceisiadau Cynllunio

C15/0888/42/HY - Gosod 7 arwydd wedi eu gosod ar bolion, Maes parcio Tŷ Clwb, Clwb Golff Nefyn a'r Cylch.

C15/0716/42/HY – Gosod 7 arwydd wedi eu gosod ar bolion, Maes parcio cyhoeddus, Clwb Golff Nefyn a'r Cylch.

C15/0717/42/LL - Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio maes parcio ynghyd a gosod camera awtomatig adnabod rhif cofrestru cerbydau maes parcio cyhoeddus, Clwb Golff Nefyn a'r Cylch.

C15/0778/42/LL - Gosod camera awtomatig adnabod rhif cofrestru cerbydau maes parcio Tŷ Clwb, Clwb Golff Nefyn a'r Cylch.

C15/0837/42/LL - Cais i ddiwygio dyluniad 3 tŷ yn wahanol i ganiatâd C10D/0358/42MG Ystâd Borthwen, Edern.

Dim gwrthwynebiad

**Yn ychwanegol i'r agenda**

Cyng. Gruffydd Williams wedi trefnu cyfarfod gyda David Harden, Perchenog Ystad Nanhoron ynglŷn â thrafod ail agor rhan o'r llwybr pandy Saethon sydd ar dir Nanhoron sydd yn rhan o lwybr Morwrol.

Cae Chware Edern

Wedi dod i'r fei wrth ymchwilio i'r tir mai'r Brif Ysgol Bangor sydd yn berchen ar y cae. Mae Cyng. Liz Saville ar gyfreithiwr Strain ar y mater. Mae'r Pwyllgor Cae Chware wedi bod mewn trafodaeth i ail leoli'r Cae Chware ar dir y Capel ar Ganolfan Edern. Y clerc i ysgrifennu at drysorydd i drefnu cyfarfod i weld os yn bosib trafod y mater ymhellach er mwyn gallu symud ymlaen.

***Gohebiaeth***

13.0 Wedi derbyn llythyr gan. Jones ynglŷn ar wal yn fynwent Nefyn - angen gyrru llythyr i Robin perchennog cwmni bysus Nefyn yn gofyn am gyfarfod er mwyn gweld be all ei wneud ynglŷn ar wal.

14.0 Llythyr wedi ei dderbyn gan. Jones yn nodi ei pryderi ar blant yr ysgol sydd yn gadael tir yr ysgol drwy gae i Ffordd Cae Rhug. Hefyd fe nodwyd ei bod wedi gyrru llythyr yn nodi hyn i'r cyngor flwyddyn ddiwethaf. Y Clerc am weld yn nol drwy gofnodion blaenorol i weld be ddoth o'r llythyr yma er mwyn cael gwybodaeth diweddaraf ar y sefyllfa.

15.0 Llythyr gan Gyngor Gwynedd - Rhaglen waith Trafnidiaeth a Phriffyrdd Mis Medi 2015 - B4417 - Ficerdy Morfa Nefyn - Cwlfert

16.0 Un Llais Cymru - Cyfarfod 7.00yh Nos Fercher, Medi 16, 2015 Siambr Cyngor Tref Pwllheli. Y clerc a'r cadeirydd am fynychu'r cyfarfod.

Praesept – 15 £24592.00 wedi ei dderbyn.

**Ceisiadau am Gyfraniad.**

Dim wedi ei dderbyn

Taliadau – Caniatad wedi ei roi i'r Clerc dalu'r isod.

- Cyflog y clerc £520.00
- PAYE y Clerc £120.00
- Cyflog Simon Jones a PAYE

- Mr C Hughes £1227.00
  Contract Llwybrau
- £59.38 – Tyddyn Sachau – Jenny, wedi ei dalu

CYFARFOD NESA 13 O Hydref – Y Ganolfan, Edern